

Meinir Gwilym Songs

		Index	
Song	Page	Cymraeg	Saesneg
1	2	Glaw	Rain
2	3	Merch y Melinydd	The Miller's Daughter
3	4	Fin Nos	Twilight
4	5	Y Funud Hon	This Moment
5	6	Barod	Ready
6	7	Gafael yn Dynn	Hold Tight
7	8	Golau yn y Gwyll	Light in the Dusk
8	9 & 10	Siglo dy Sail	Shaking your Foundations
9	11	Clecs	Gossips
10	12	Enaid Hoff Cytun	My Loving Harmonious Soul
11	13	Siwgwr i'r Tân	Sugar to the Fire
12	14	Fi Fi Fi	Me Me Me
13	15	Rwan	Now
14	16	Dim Byd A Nunlla	Nothing and Nowhere
15	17	Wyt Ti'n Mynd i Adael?	Are You Going to Leave?
16	18	Cachu ar y Walia'	Crap on the Walls
17	18	Y Hi	Her
18	19	Y Lle	The Place
19	20	Y Fo	Him
20	21	Wyt Ti'n Cofio?	Do You Remember?
21	22	Cymru, USA	Wales, USA
22	23	Ar Hyd Y Nos	All Through The Night
23	24	(Sgin i ddim) Calon Lan	(I have no) Untarnished Heart
24	25	Gwraig Dda	A Good Wife
25	26	Hen Gitar	Old Guitar
26	27	Wyt Ti'n Gem?	Are You Game?
27	28	Pa Loches?	What Refuge
28	29	Dim Ond Yn Fa'ma	Only Here
29	30	Dyna Chdi	There You Are
30	31	Dybyl Jin a Tonic	Double Gin And Tonic
31	32	Gormod	Too Much
32	33 & 34	Doeth	Wise

1. Glaw - Rain

Meinir Gwilym

Ydi mae o yn meddwl 'i hun ond
cofia i fod o yn dipyn o ddyn
Fo ydi tan uffern mewn cnawd yn dechrau
rhyfel efo'r byd a'i frawd
Fo ydi'r un...mae o fel Glaw
Mae o fel glaw

'Dewch' medda fo, 'fy hoff elynion,
yfw'n i gyd ein gwydrau yn weigion'
Rydan ni'n ddau ac eto yn un, dwi di cael lot
ond mae o'n well na'r un.
Fo ydi'r un...mae o fel Glaw
Mae o fel glaw

Ac mae'n fy ngholchi yn lannach na
glan, yn burach na phur,
Yn rhoddi imi iachawdwriaeth
yn gwella fy nghur. Glaw

Paid a son am ddim sy'n oer,
nac am y byd yn caethiwo'r lloer
'Chos chdi ydi fi a fi ydi chdi,
gadael bob peth a throi efo'r lli
Fo a fi....mae o fel Glaw.
Mae o fel glaw

Ac mae'n fy ngholchi yn lannach na
glan, yn burach na phur,
Yn rhoddi imi iachawdwriaeth
yn gwella fy nghur. Glaw

Yn fy ngholchi...yn fy ngwella...
Glaw.
Mae o fel glaw
Mae o fel glaw
Mae o fel glaw

Yes he thinks for himself, but
remember he's quite a man
He's the fires of hell in flesh, starting
a war with the world and his brother.
He is the one...he's like rain.
He's like rain.

'Come' he says, 'my fond enemies,
we shall drink our glasses empty'
We are two and yet one, I've had a lot
but he's better than the one.
He is the one...he's like rain.
He's like rain.

And he washes me cleaner than
clean, purer than pure,
He gives me salvation,
heals my pain. Rain...

Speak not of anything cold,
or of the world confining the moon
Because you are me and I am you,
leaving everything and going with the flow.
Him and me...he's like the rain.
He's like the rain.

And he washes me cleaner than
clean, purer than pure,
He gives me salvation,
heals my pain. Rain...

Cleans me...heals me...
Rain
He's like rain
He's like rain
He's like rain

2. Merch y Melinydd - The Miller's Daughter

Welsh Folk Song - Singer: Meinir Gwilym

Os yw fy annwyl gariad
yn caru dwy neu dair,
ac yn eu cadw'n fodlon
bob marchnad a phob ffair;
wel peidied yntau meddwl
fod hynny'n boen i mi,
rwyf fi mor rhydd ag yntau
i garu dau neu dri.

Phrioda'i ddim eleni,
chwedleua'i ddim am neb,
twyllodrus iawn yw meibion
a fedrant ddweud yn deg;
po deced bo nhw'n siarad,
o! gwaetha'i gyd y daw,
llawenydd pob merch ifanc
yw'i dewis ar ei llaw.

Os oes rhyw dair neu bedair
yn hoff ohono ef,
wel mae gennyf innau bedwar
ar bymtheg yn y dref;
a nhw sy'n dweud fel yma,
a nhw sy'n dweud fel hyn,
dwyf fi ond gwenu arnynt,
a dal fy serch yn dynn.

Mae'n dweud fy mod i'n euog
oherwydd gwrid fy moch,
wel os gwrida ef yn welw,
mi wrida innau'n goch;
a dwedaf yn ei wyneb
ag wyneb dewr pob dyn,
'Llawenydd merch melinydd
yw dewis dim ond un.'
'Llawenydd merch melinydd
yw dewis dim ond un.'

'Llawenydd merch melinydd
yw caru dim ond un.'

If my beloved sweetheart
loves two or three,
and keeps them content
each market and each fair;
well don't let him think
that this troubles me,
I am as free as him
to love two or three.

This year I will not marry,
nor coquetting go,
young boys are most deceiving
as they can speak fairly;
and first they praise you beauty
but then your faith abuse,
the joy of each young girl is
to be able to choose.

If there are three or four
girls fond of him,
well I have nineteen
admirers in the town;
and some are for my money,
and more are for myself;
I only smile at them,
and keep my love reserved.

He says that I am guilty for
I blushed so brightly,
but I made my answer rightly -
'A guilty cheek turns pale'
and so I'll say to his face
and any man's brave face,
'The joy of the miller's daughter
is to choose only one.'
'The joy of the miller's daughter
is to choose only one.'

'The joy of the miller's daughter
is to love only one.'

3. Fin Nos - Twilight

Meinir Gwilym

Fin nos, dwi'n gweld dagrau y lli.
Paid ag wylo mwy, dwi'n clywed dy gri.
Anghofia heno'r nos,
y wawr a ddaw yn dlos.
Does ond heno i mi.

Fin nos, dwi'n teimlo siglo y ser;
hunwch ffenestri'r nen,
dowch ag o ataf fi.
Yng nghanol swyn y ser,
lle mae dy olau di?
Ond does ond heno i mi.

A falla heno gai gwsg.
A gaf fi heno gau y drws
ar ddagrau dy golli di a noswaithiau unig lu?
Does ond heno i mi.

Fin nos dwi'n clywed dy gan ar y gwynt,
yn suo fy nos i ffwrdd; bore ddaw yn gynt.
A gwn o'r alaw hon mai llon dy galon di.
A does ond heno i mi.

A falla heno gai gwsg.
A gaf fi heno gau y drws
ar ddagrau dy golli di a noswaithiau unig lu?
Does ond heno i mi.
A does ond heno i mi.
Does ond heno i mi.

In the twilight I see the flood of tears.
Don't cry anymore, I hear your plea.
Forget the night tonight,
the dawn will come in beauty.
There's only tonight for me.

In the twilight I feel the sway of the stars,
the slumber of the windows of the sky,
bring it to me.
In the midst of the sound of the stars,
where is your light?
But there's only tonight for me.

Perhaps tonight I shall sleep.
Will I tonight close the door
on the tears of losing you and all the lonely nights?
There's only tonight for me.

In the twilight I hear your song on the wind,
lulling my night away, the morning will come soon.
And I know from this melody that your heart is glad.
And there's only tonight for me.

Perhaps tonight I shall sleep.
Will I tonight close the door
on the tears of losing you and all the lonely nights?
There's only tonight for me.
And there's only tonight for me.
There's only tonight for me.

4. Y Funud Hon - This Moment

Meinir Gwilym

Fushi 'rioed mor hen ag ydw i'r funud hon,
grym dy dawelwch di
sy'n brinder ffrwythlon i 'nghalon.
A sgyn ti'm lle,
na, sgyn ti'm lle,
na, sgyn ti'm lle i ofyn pam - 'pam chdi'?

Fushi 'rioed mor gryf ag ydw i yr ennyd hon,
a churiad dy gerdded di wrth fy ymyl
sy'n gyrru fy nghalon.
A dwi ar dân,
a dwi ar dân,
a dwi ar dân i fod am byth efo dy enaid di.

A does na'm problem yn y byd
na fedr Cariad mo'i ddatrys,
a does na'm problem yn y byd -
dim ond i ni weld,
dim ond i ni weld.

Gesh i erioed y fath loes
a gesh i funud 'nol
wrth sylweddoli byrder byw
ac eiliad 'di Bywyd i'r Cread.
A sgyn i'm lle,
na, sgyn i'm lle,
na, sgyn i'm lle i ofyn pam - 'pam fi'?

I've never been so old as I am at this moment,
and the force of your silence
is a rare abundance to my heart.
And you have no place,
no, you have no place,
no, you have no place to ask why - 'why you'?

I've never been as strong as I am at this moment,
and the beat of your walk beside me
is what drives my heart.
And I am longing,
and I am longing,
And I am longing to be forever with your soul.

And there's no problem in the world
that Love can't solve,
and there's no problem in the world -
only for us to see,
only for us to see.

I've never felt so much anguish
as I did a moment ago
at realising the brevity of living
and life is just a second to the Creation.
And I have no place,
no, I have no place,
no, I have no place to ask why - 'why me'?

5. Barod - Ready

Meinir Gwilym

Ydw i 'mond yn pasio drwadd wrth i chdi
gerdded yn dy gwsg?
Sgidia' dynas arall wrth y drws?
Ag ydw i 'mond yn bresenoldeb
wrth inni gerdded lawr y lon?
Llais dynas arall ar y ffon?
Gwahanol jocs, gwahanol leins
a sgidiau dynes jysd 'run fath.

Ydw i 'mond yn galon arall
i bracdisho saethu?
Prin yn gwnei di fethu.
Ag ydw i 'mond yn cynnau tan
ar aelwyd sydd wedi oeri,
heb obaith y dydd hi'n cynhesu?
Gwahanol waed, gwahanol gnawd -
a calon dynes jysd 'run fath.

Mae gen i 'nghot, mae gen i'n sgidiau,
mae gen i 'nghan, mae gen i 'ngwreiddiau
a dwi'n barod.
Dwi'n barod,
yn barod i chdi ddweud nad wyt ti eisiau setlo.
Dyna sioc fydd honno!
A dwi'n barod rhag ofn y bydd
yn rhaid i mi adael y bywyd hwn
a cherdded drwy y cwm.
'Sa nunlle'n saff, 'sa nunlle i droi,
mae pob un enaid call yn ffoi.

Mae gen i 'nghot, mae gen i'n sgidiau,
mae gen i 'nghan, mae gen i 'ngwreiddiau
a dwi'n barod.
Dwi'n barod,
Ydwi'n barod?
Dwi'n barod, ie, ie, dwi'n barod...
Mae gen i 'nghot, (mae gen i'n nghot)
Mae gen i 'nghot, mae gen i'n sgidiau,
a dwi'n barod.
A mae gen i 'nghot, mae gen i'n sgidiau,
mae gen i 'nghan, mae gen i 'ngwreiddiau
a dwi'n barod.

Do I only pass through as you
walk in your sleep?
Another woman's shoes by the door?
Am I the only presence
as we walk down the road?
Another woman's voice on the phone?
Different jokes, different lines
and women's shoes just the same.

Am I only another heart
for you to practice shooting?
Seldom do you miss.
Am I only lighting a fire
on a hearth that's grown cold
without hope that she'll warm up?
Different blood, different flesh -
and a woman's heart just the same.

I've got my coat, I've got my shoes,
I've got my song, I've got my roots
and I'm ready.
I'm ready,
ready for you to say that you don't want to settle.
Oh what a shock that will be!
And I'm ready lest
I must leave this life
and walk though the valley.
Nowhere is safe, there's nowhere to turn,
Every other sensible soul is fleeing.

I've got my coat, I've got my shoes,
I've got my song, I've got my roots
and I'm ready.
I'm ready,
Am I ready?
I'm ready, yeah, yeah, I'm ready...
I've got my coat (I've got my coat)
I've got my coat, I've got my shoes,
and I'm ready.
I've got my coat, I've got my shoes,
I've got my song, I've got my roots
and I'm ready.

6. Gafael yn Dynn - Hold Tight Meinir Gwilym

Sycha dy llgada gwlyb,
gwna'n siwr nad oes yna'm hoel,
ag ista lawr yn dawel iawn,
achos does na'm dianc rwan.

Dry your wet eyes,
make sure that there's no remnant left,
and sit down quietly,
because there's no escaping now.

Gafael yn dynn, gafael yn dynn,
gafael yn dynn 'chos dyma'r newid mawr.
Gafael yn dynn, gafael yn dynn, gafael yn dynn,
a chau dy lygaid,
chos mae y diafol yn ymweld.

Hold tight, hold tight,
hold tight because this is the great change.
Hold tight, hold tight, hold tight,
and close your eyes,
because the devil is paying a visit.

Fydd rhaid i chdi fyw ar fwg a dwr
pan ddaw o mewn i'r ty,
a does na'm pwynt mewn codi stwr
'chos fo di'r Brenin Du.

You'll have to live on smoke and water
when he comes inside the house,
and there's no point in protesting
because he's the Black King.

Gafael yn dynn, gafael yn dynn,
gafael yn dynn 'chos dyma'r newid mawr.
Gafael yn dynn, gafael yn dynn, gafael yn dynn,
a chau dy lygaid,
mae y diafol yn ymweld.

Hold tight, hold tight,
hold tight because this is the great change.
Hold tight, hold tight, hold tight,
and close your eyes,
the devil is paying a visit.

Os grandewi di yn astud iawn
mi glywi di swm dy droed dy hun.
Os sbi di'n ofalus iawn,
weli di neb ond chdi dy hun.
Rho dy wen groesawus, a phaid a deud 'run gair.
Neith o'm neud chdi'n hapus,
ond gei di fynd i'r ffair.

If you listen very carefully
you'll hear the sound of your own foot.
If you look very closely
you'll see no one but yourself.
Give that welcoming smile and don't say a word.
It won't make you happy,
but you can go to the fair.

Gafael yn dynn, gafael yn dynn,
gafael yn dynn 'chos dyma'r newid mawr.
A gafael yn dynn, gafael yn dynn,
gafael yn dynn,
a chau dy lygaid,
mae y diafol yn ymweld.
Mae y diafol yn ymweld,
mae y diafol yn ymweld.

Hold tight, hold tight,
hold tight because this is the great change.
Hold tight, hold tight,
hold tight,
and close your eyes,
the devil is paying a visit.
The devil is paying a visit,
the devil is paying a visit.

Gafael yn ddyn.

Hold tight.

7. Golau yn y Gwyll - Light in the Dusk

Meinir Gwilym

Welaist ti y nos yn troi yn dydd
dros fae San Fransisco?
Gysgaist ti dan ser y Dwyrain Pell
ymhell bell o adref?
A ddawnsiaist ti yn leithder y gwlith
ar ddafanau o arian?

*Ge'st ti gip ar bwy wyt ti
yn a galau yn y gwyll?
Ge'st ti wefr, ge'st ti droedigaeth
yn y golau yn y gwyll?
Ar dy bererindod gorffwyll i mewn i'r golau
yn y gwyll.*

Ac wrth i ti hwylio 'r Iorddonen,
deimlaist ti dy hun yn sanctaidd?
Ac wrth i ti gerdded paith y wladfa,
glywaist ti emynau 'r Tadau?
Ge'st ti orwedd ar dy hyd ar gwmwl aur
i wyllo 'r gwledydd?

*Ge'st ti gip ar bwy wyt ti
yn a galau yn y gwyll?
Ge'st ti wefr, ge'st ti droedigaeth
yn y golau yn y gwyll?
Ar dy bererindod gorffwyll i mewn i'r golau
yn y gwyll.*

*Ge'st ti gip ar bwy wyt ti
yn a galau yn y gwyll?
Ge'st ti wefr, ge'st ti droedigaeth
yn y golau yn y gwyll?
Ar dy bererindod gorffwyll i mewn i'r golau
yn y gwyll.*

Wyt ti'n barod erbyn hyn?
Tyrd o 'r golau yn y gwyll.

Did you see the night turning into day
over San Francisco Bay?
Did you sleep under the stars in the Far East
far away from home?
And did you dance in the dampness of the dew
on drops of silver?

*Did you get a glimpse of who you are
in the light in the dusk?
Did you get a thrill; did you get a conversation
in the light in the dusk?
On your wild pilgrimage into the light
in the dusk.*

And as you sailed the River Jordan,
did you feel yourself holy?
And as you walked the prairie of the colony,
did you hear the hymns of the Fathers?
Did you get to lie on your golden cloud
to watch the countries?

*Did you get a glimpse of who you are
in the light in the dusk?
Did you get a thrill; did you get a conversation
in the light in the dusk?
On your wild pilgrimage into the light
in the dusk.*

*Did you get a glimpse of who you are
in the light in the dusk?
Did you get a thrill; did you get a conversation
in the light in the dusk?
On your wild pilgrimage into the light
in the dusk.*

Are you ready by now?
Come from the light in the dusk.

8. Siglo dy Sail - Shaking your Foundations

Meinir Gwilym

Do, dwi di bod yn fan 'na,
deud dim byd a siarad rybish.
Wel, do, do, do.
A ddylia mod i wedi gweld hyn yn dod,
ond nesh i ddim. Nesh i ddim.

Ar fy mywyd i, tasa na fellten
yn fy nharo fi, wel,
nesh i ddim.
Pwy daflodd gyntaf?
Dwi'm yn gwybod,
ond dwi'n gweld mai chdi
gafodd yr ergyd olaf.

[Cytgan]

*Pan ti'n meddwl bo chdi'n gwbod,
dyna pryd gei di ail,
ac mae o'n siglo dy sail.*

[Cytgan]

'Dan ni di bod yn fan 'na o'r blaen yn do?
Colli bob ffydd ac ennill y dydd.
Cloi drws yr hen gell
ac yna rhywun yn dy lusgo di
i'r golau'n well.

Colli pen, colli deigrin,
colli ochrau, meddwl
a chael tip gan ffwl:
'Hei gofia gadw, cofia gadw'n cwl'
- wel diolch yn fawr!

[Cytgan]

[Cytgan]

Dwi'n cofio deud 'gwna be ti isio',
ond nes di ddim.
Ac 'ar ol tri dwi'n mynd i neidio',
ond nes i ddim.
Flwyddyn nesa nai stopio cwffio,
stopio yfad, stopio, stopio bob dim.
Ond nes di ddim, nes di ddim.
Hawdd ydi sbio'n ol a gweld
y gwir i gyd yn glir,
o'r cychwyn un.

Yes, I've been there,
saying nothing and talking rubbish.
Well, yes, yes, yes.
I should have seen this coming,
but I didn't. I didn't.

On my life, if a bolt of lightning
struck me, well,
I didn't.
Who threw the first punch?
I don't know,
but I can see you were
the last to be hit.

[Chorus]

*When you think that you know,
that's when you come second,
and it shakes your foundations.*

[Chorus]

We've been here before, haven't we?
Losing all faith and winning the day.
Close the cell door
and then someone drags you
to where the light shines brighter.

Losing your head, shedding a tear,
losing sides, your mind
and getting a tip from a fool:
'Hey remember, remember to keep your cool'
- well thanks very much!

[Chorus]

[Chorus]

I remember saying 'do what you want',
but you didn't
And 'after three I'm going to jump',
but I didn't.
Next year I'll stop fighting,
stop drinking, stop stopping everything.
But you didn't, you didn't.
It's easy looking back and seeing
the truth so clearly
from the very beginning.

continued

Siglo dy Sail - Shaking your Foundations (continued)

Meinir Gwilym

Dwi'n sbio rwan ac yn meddwl fod gen
i ddim byd ond gwythiennau'n llawn
o wenwyn pur.
Ond yn sydyn mae 'na dennyn
yn tynnu'n dyner ar fy nghalon i -
fel llaw ar fy ngwer...
A dwi'n gweld fy hun rwan a
dwi dal yn siarad rybish yn yr union fan

[Cytgan]
Pan ti'n meddwl bo chdi'n gwbod,
dyna pryd gei di ail,
ac mae o'n siglo dy sail.

[Cytgan]

[Cytgan]

[Cytgan]

I'm looking now and feel like
I've got nothing but veins full
of pure poison
But suddenly a little cord
tugs gently at my heart strings -
like a hand on my shoulder...
I can see myself now and
I'm still talking rubbish in the same old place.

[Chorus]
When you think that you know,
that's when you come second,
and it shakes your foundations.

[Chorus]

[Chorus]

[Chorus]

9. Clecs - Gossips

Meinir Gwilym

Dwi'n nabod dynes, ei henw hi ydi Kate,
mae Kate yn licio yfed yn y pnawniau.
Dyna ei chysur hi, a dyna fo.
Mae hi'n weddw ers deng mlynedd
ac wedi gweithio ar hyd ei hoes --
ganddi hi fwy o hawl i eistedd yn bar na neb.
Ond mae'r clecs yn clecian a'r hunangyfiawn
yn methu cau eu cegau,
ac mae hi'n dweud gawn nhw i gyd,
gawn nhw i gyd fynd i'r diawl.
Gawn nhw i gyd fynd i'r diawl,
gawn nhw i gyd fynd i'r diawl -
di waeth gen i.

Dwi'n nabod boi, gafodd o gariad
am y tro cyntaf --
hi oedd bara ei fywyd a Christ
ei grefydd.
Ond does na ddim cysur bellach iddo fo
achos ddaeth hi ddim i'r briodas
ond mi gafodd hi hynimwn
ac mae ei galon o wedi bordio ei ffenestri.
Ond mae'r clecs yn clecian a'r hunangyfiawn
yn methu cau eu cegau,
ac mae o'n dweud gawn nhw i gyd,
gawn nhw i gyd fynd i'r diawl.
Gawn nhw i gyd fynd i'r diawl,
gawn nhw i gyd fynd i'r diawl -
di waeth gen i.

Dan ni'n dilyn deddfau Mammon
eniwe sa waeth inni gyd fynd i'r diawl.

Dwi'n nabod dyn oedd eisiau bod yn weinidog
ond fe gollodd o ei hun rhywle ar hyd y ffordd.
Dyna'r gwir -- a dyna fo.
Ond mae o dal i bregethu wrth gerdded
i fyny'r lon i ryw enaid
dafad neu fuwch sy'n fodlon gwrando.
Ond mae'r clecs yn clecian a'r hunangyfiawn
clecs yn clecian a'r hunangyfiawn
yn methu cau eu cegau,
ac mae o'n dweud gawn nhw i gyd,
gawn nhw i gyd fynd i'r diawl
Gawn nhw i gyd fynd i'r diawl,
gawn nhw i gyd fynd i'r diawl -
a di waeth gen i.

I know a woman, her name is Kate,
Kate likes to drink in the afternoons.
That's her comfort, and that is that.
She's been a widow for ten years
and has worked all her life --
she's got more of a right to sit at the bar than anyone.
But the gossips gossip and the self-righteous
can't keep their mouths closed,
and she says that they all,
that they all can go to hell.
They can all go to hell,
they can all go to hell -
I don't care.

I know a guy, he got a lover
for the first time --
she was the bread of his life and the Christ
of his religion,
But there's no longer a comfort for him
because she didn't go to the wedding
but she got a honeymoon,
and his heart has boarded his windows.
But the gossips gossip and the self-righteous
can't keep their mouths closed,
and he says that they all,
that they all can go to hell.
They can all go to hell,
they can all go to hell -
I don't care.

We follow the laws of Mammon
anyway so we all might as well go to hell.

I know a man who wanted to be a minister
but he lost himself somewhere along the way.
That's the truth -- and that is that.
But he still preaches as he walks
up the road to some soul
a sheep or a cow who's willing to listen.
But the gossips gossip and the self-righteous
gossips gossip and the self-righteous
can't keep their mouths closed,
and he says that they can all,
that they can all go to hell.
They can all go to hell,
they can all go to hell -
and I don't care.

10. Enaid Hoff Cytun - My Loving Harmonious Soul

Meinir Gwilym

Ti'n cadw 'nhraed ar y ddear,
cadw 'nhymer i'n glaeaf --
fy enaid hoff cytun.
Mae'n dda gen i dy weld di,
pan newydd sydd gen ti? Fy enaid hoff cytun.

Ti efo fi'n wastad ond
'sna'm rhaid i ni siarad -
fy enaid hoff cytun.
Ti'n dweud fod "Leusa yn y pantri,"
a dwi'n gwybod be 'sgin ti,
fy enaid hoff cytun.

Dwi'n meddwl fod yna rywun sydd
yn chwerthin efo ni,
wrth inni weld ser yn siglo mae nhw'n
gwenu drosom ni.

Fedrai ddweud fy nghyfrinach,
a fydd neb yn ddim callach ond
fy enaid hoff cytun.
Dim ots os dwi'n mwyrdd --
sna'm rhaid i ni gallio,
enaid hoff cytun.

Dwi'n amau fod yna rywun sydd
yn gwylio drosom ni,
Wrth inni redeg nerth ein traed
mae nhw'n sgrechian efo ni.

Tyrd dawnsia efo fi,
cyn i'r wawr ein drysu ni -
gawn ni lot o hwyl a sbri.

Fedrai ddweud fy nghyfrinach,
a fydd neb yn ddim callach ond
fy enaid hoff cytun.
Ti'n dweud fod "Leusa yn y pantri,"
a dwi'n gwybod be 'sgin ti,
fy enaid hoff cytun.

Fy enaid hoff cytun....

You keep my feet on the ground,
you keep my my temper cool,
my loving harmonious soul.
I'm happy to see you,
have you any news? My loving harmonious soul.

You're always with me
but we don't have to talk -
my loving harmonious soul.
You say that "Leusa's in the pantry,"
and I know what you mean,
my loving harmonious soul.

I think that there's someone
laughing with us,
as we watch the stars sway they
smile over us.

I can tell all my secrets
and no one's none the wiser,
my loving harmonious soul.
Doesn't matter if I banter -
we don't need to be serious,
my loving harmonious soul.

I suspect that someone's
watching over us,
as we run as fast as we can,
they scream along with us.

Well, come dance with me,
before the dawn bewilders us -
we'll have a lot of fun!

I can tell all my secrets
and no one's none the wiser but
my loving harmonious soul.
You say that "Leusa's in the pantry,"
and I know what you mean,
my loving harmonious soul.

My loving harmonious soul...

11. Siwgwr i'r Tân - Sugar to the Fire

Meinir Gwilym

Mae'n taflu siwgwr i'r tan i demtio'i ffawd,
yn torri'n lan i gael y drwg o'r cnawd.
Yn troi a throi i ddinistrio'r briw,
yn chwilio'n ddyfal am rywbeth sy'n driw.

Mae'n dweud 'swnllyd ydi dinas,
i mi mae hi'n addas,
cyfrwys ydi ffrindiau, brad sy'n eu dyddiau.
Da ydi cywilydd i ymegnio o'r newydd,
deisyfu adnabod waliau'r cydwybod.'

Lle mae'r llawr, pan mae'r byd ben ucha'n isa?
Têc awe ydi'r unig gysur sydd 'na'n fa'ma.
Oes 'na le, lle mae'r byd yn troi yn ara'?
Cau dy geg, dyna'r ateb gorau sydd 'na.

Twrw'r brwyn, sibrawd yr un
hen gwyn:
'Diwedd y byd...rydan ni'n dweud o hyd.'
Mae'r afon yn canu yr un hen gan:
'Mae'r dilyw ar ddod gyda throad y rhod.'

Gen i ganiau côc a stympiau smocs a
bagiau chips o siop,
cnonod yn y cig, dydi'r
cylch ddim yn dod i stop.
Dringo fyny'r ysgol a ti'n llithro lawr y sleid,
gen i wn a bwa saeth, meths a valium,
bara llaeth.
Taflu siwgwr i'r tan i demtio'i ffawd.

Pan mae'r byd ben ucha'n isa,
yr unig gysur sydd yna'n fa'ma ydi...

Caniau côc a stympiau smocs a
bagiau chips o siop
Cnonod yn y cig, dydi'r
cylch ddim yn dod i stop
Dringo fyny'r ysgol a ti'n llithro lawr y sleid
Gen i wn a bwa saeth, meths a valium,
bara llaeth.
Taflu siwgwr i'r tan i demtio'i ffawd.

She throws sugar to the fire to tempt her fate,
tries her best to rid the evil from the flesh.
Twists and turns to destroy the wound,
persistently searching for something that's honest.

She says 'the city is noisy,
for me it's suitable,
friends are cunning, betrayal's in their days.
Humiliation is good to try again,
beg to recognize the walls of the conscience.'

Where's the ground, when the world is upside down?
Take away is the only comfort to be found here.
Is there a place, where the world turns slowly?
Shut your mouth, is the best answer there is.

The sound of the rush, whispering the same
old grievance:
'End of the world...it's what we always say'.
The river sings the same old song:
'The flood is approaching by the turn of the wheel'.

I've coke cans and cigarette stumps and
chip bags from the shop,
maggots in the meat, there's
no end to the cycle.
Climb the ladder and you fall down the slide,
I've a gun and bow and arrow, meths and valium,
buttermilk bread.
Throw sugar to the fire to tempt fate.

When the world is upside down,
the only comfort to be found here is...

Coke cans and cigarette stumps and
chip bags from the shop,
Maggots in the meat, there's
no end to the cycle.
Climb the ladder and you fall down the slide.
I've a gun and bow and arrow, meths and valium,
buttermilk bread.
Throw sugar to the fire to tempt fate.

12. Fi Fi Fi - Me Me Me

Meinir Gwilym

Roni'n ddall ac
Roni'n oer ac
Roni'n wan
Fel y lloer ar ganol ei chylch
Methu gweld pen y daith
Ac roni'n galed
A mhen i'n troi
Fel y milwr sy'n mynnu ffoi
Ar ganol ei waith
Yn methu rhoi pen ar daith

Ga'i ymddiheuro...
Am fod mor
'Fi, Fi, Fi'
A heddiw dwisho deud
'Chdi di craidd fy modolaeth i'

A phetawn i'n ffeindio'r gan
Mi fuasai'n deud
Am y tan mor gain a chudd
Sy'n llosgi yn fy nghalon i
Am yr un sy'n dy garu di
O waelod ei henaid hi
O mi hoffwn i ddod o hyd i'r gan

Ond ga'i ymddiheuro...
Am fod mor
'Fi, Fi, Fi'
A heddiw dwisho deud
'Chdi di craidd fy modolaeth i'

Dwim yn gorfod trio
A prin yn medra i beidio

Ga'i ymddiheuro...
Am fod mor
'Fi, Fi, Fi'
A heddiw dwisho deud
'Chdi di craidd fy modolaeth i'

Ga'i ymddiheuro...
Am fod mor
'Fi, Fi, Fi'
A heddiw dwisho deud
'Chdi di craidd fy modolaeth i'

Wwww....

I was blind and
I was cold and
I was weak
Like the moon in the middle of her cycle
Couldn't see the end of the journey
And I was difficult
My head was turning
Like the soldier who insists on fleeing
In the middle of his work
Couldn't see the end of the journey

But I want to apologise...
For being so
'Me, Me, Me'
And today I want to say
'You're the core of my existence'

And if I happened to find the song
It would talk about
The fire so fine and disguised
That burns within my heart
And about the one who loves you
From deep within her soul
Oh, how I'd like to find that song

But let me apologise...
For being so
'Me, Me, Me'
And today I want to say
'You're the core of my existence'

I don't need to try
And I can hardly not

But I want to apologise...
For being so
'Me, Me, Me'
And today I want to say
'You're the core of my existence'

But I want to apologise...
For being so
'Me, Me, Me'
And today I want to say
'You're the core of my existence'

Ooooh....

13. Rwan - Now

Meinir Gwilym

Mi gerddais i am flwyddyn gron,
efo shefl yn fy llaw
Yn chwilio am arfordir newydd
i gladdu trysor ar draeth

I walked for a whole year,
with a shovel in my hand
Looking for a new coast
to bury treasure on a beach

Ac wedi gweld y pridd yn troi yn dywod
efo'r plentyn ar fy mraich
Mi gefais hyd i arfordir newydd a golchi'r
trysor wnaeth y traeth

And having seen the soil turn to sand
with the child on my arm
I found a new coast and wash the
treasure did the beach.

Rwan. Mae rwan yn gynnau.
Rwan. Mae rwan yn gynnau.

Now. Now is a moment ago.
Now. Now is a moment ago.

A phwy fydd ar ol i ddweud
yr hanes yn onest a di-duedd?
Fydd na neb. Dim ond sgandal fain
am hen Bobol y Drain.

And who will be left to tell
the unbiased and honest tale?
There won't be anyone. Only a skinny rumour
about the old People of the Thorns.

Rwan. Mae rwan yn gynnau.
Rwan. Mae rwan yn gynnau.

Now. Now is a moment ago.
Now. Now is a moment ago.

Ag faint erbyn hyn ydi cyfri'r meirw,
yn gorfforol neu ysbrydol?
Ag faint o flynyddoedd mae hi 'di gymryd
i gyraedd lle'r ydan ni rwan?

And how much now is the death toll,
physically or spiritually?
And how many years has it taken
to get where we are now?

Gormod i gyfrif. A dim trysor ar draeth,
Dim rhyddid chwaith, a'r plentyn
yn dal ar fy mraich.

Too much to count. And no treasure on a beach,
No freedom either, and the child
still on my arm.

Rwan. Mae rwan yn gynnau.
Rwan. Mae rwan yn gynnau.
Rwan. Rwan. Rwan.

Now. Now is a moment ago.
Now. Now is a moment ago.
.Now. Now. Now.

14. Dim Byd A Nunlla - Nothing and Nowhere

Meinir Gwilym

Dwi 'di byw mewn dinas lle roedd
Y seintiau dal i gerdded strydoedd
Lle roedd hafan gynnes,
lle roedd rhyddid yn yr aer
Dwi 'di crwydro ynys lle roedd
Bob un dyn yn ddiadol tawel
Lle roedd gaeaf yn greulon,
lle roedd halen yn y gwaed

Be dwi 'di neud, lle dwi 'di bod?
Dim byd a nunlla.
Be dwi 'di neud a lle dwi 'di bod?
Dim byd a nunlla.

Dwi 'di bod yn Eden - roedd y byd i gyd
yn canu i mi
Mi nath Efa fwyta'r afal ar y pren
Dwi di cerdded can ddiben a cyraedd brig
y mynydd uchaf
Wedi ceisio'n daer i ffeindio'r heddwch
yn fy mhen

[Cytgan]
Be dwi 'di neud, lle dwi 'di bod?
Dim byd a nunlla.
Be dwi 'di neud a lle dwi 'di bod?
Dim byd a nunlla.
Dim byd a nunlla
Dim byd a nunlla

Dwi 'di bod yn nghanol seren,
yn rhan o grair a calisto
Fi oedd y catalydd yn ffurfiant yr haul
Dwi 'di chwarae gitar yn New York
a dawnsio y fflamenco
A dwi 'di enill, dwi 'di colli, dwi 'di cael

[Cytgan]

[Cytgan]

Be dwi 'di neud, lle dwi 'di bod?

I've lived in a city where
The saints still walked the streets
Where there was a warm haven,
and freedom in the air
I've wandered an island where
Every man was a silent devil
Where the winter was harsh,
and salt in the blood.

What have I done, where have I been?
Nothing and nowhere.
What have I done, where have I been?
Nothing and nowhere.

I've been in Eden where the whole world
was singing to me
Where Eve ate the apple from the tree
I've walked mindlessly and reached the highest peak
of the highest mountain
I've tried desperately to find the peace
inside my mind

[Chorus]
What have I done, where have I been?
Nothing and nowhere.
What have I done, where have I been?
Nothing and nowhere.
Nothing and nowhere.
Nothing and nowhere.

I've been in the middle of a star,
a part of an old relic, a calisto
I was the catalyst for the formation of the Sun
I've played guitar in New York
and have danced the flamenco
And I've won, I've lost and I've had

[Chorus]

[Chorus]

What have I done, where have I been?

15. Wyt Ti'n Mynd i Adael? - Are You Going to Leave?

Meinir Gwilym

Ti'n troi dy ben, a rowlio dy lygaid blin.
Dani fel delwon yng ngolau'r gannwyll lon.
Mi rydwi'n gwybod pa mor anodd
ydio i fyw efo fi
A dwi'n gwybod mod i'n waith
A mi rydwi'n gweld fod fy nghario i
yn straen i chdi
Ond dwi - dwi bron a chyraedd.

Wyt ti'n mynd i adael?
Pan dwi'n erfyn arna chdi...
Wyt ti'n mynd i adael?
Pan dwi'n gofyn i chdi aros efo fi...
Os gyn ti'm cywilydd? Os gyn ti'm calon?
Nai ddeud fod pethau'n iawn.

Paid a sbio mewn i'n llygaid i
Paid a gafael yn fy llaw i fel 'na.
Mi rydwi'n gwybod mod i'n orio ac yn chwil
A dwi'n gwybod mod i'n waith
A mi dwi'n gweld fy mod i yn dy flino di
Ond dwi - dwi bron a chyraedd.

Wyt ti'n mynd i adael?
Pan dwi'n erfyn arna chdi...
Wyt ti'n mynd i adael?
Pan dwi'n gofyn i chdi aros efo fi...
Os gyn ti'm cywilydd? Os gyn ti'm calon?
Nai ddeud fod pethau'n iawn.

Dos, gadael.
Dos i weld pwy gymith chdi.
A dos, gadael
Dos i weld pwy gymith chdi.
A dos, gadael
Dos i weld pwy gymith chdi.
Dwi'n betio nei di'm cael neb fel fi.

Mi rydwi'n gwybod mod i'n orio ac yn chwil
Ond dwi - dwi bron a chyraedd.

Wyt ti'n mynd i adael?
Pan dwi'n erfyn arna chdi...
Wyt ti'n mynd i adael?
Pan dwi'n gofyn i chdi aros efo fi...
Os gyn ti'm cywilydd? Os gyn ti'm calon?
Nai ddeud fod pethau'n iawn.

You turn away and roll your angry eyes.
We are like statues in merry candlelight.
I know that I'm very hard
to live with
And I know that I can be work
And I know that carrying me
is a strain to you
But I, I'm almost there.

Are you going to leave?
When I'm begging you...
Are you going to leave?
When I ask you to stay with me...
Have you no shame? Have you no heart?
I'll say that everything's fine.

Don't look me in the eyes
And hold my hand like that.
I know I can be fickle and moody
And I know that I can be work
And I, I can see that I tire you
But I, I'm almost there.

Are you going to leave?
When I'm begging you...
Are you going to leave?
When I ask you to stay with me...
Have you no shame? Have you no heart?
I'll say that everything's fine.

Go, leave.
Go and see who'll take you
And go, leave.
Go and see who'll take you
And go, leave
Go and see who'll take you.
I bet you won't find anybody like me.

I know I can be fickle and moody
But I, I'm almost there.

Are you going to leave?
When I'm begging you...
Are you going to leave?
When I ask you to stay with me...
Have you no shame? Have you no heart?
I'll say that everything's fine.

16. Cachu ar y Walia' - Crap on the Walls

Meinir Gwilym

Ma na gachu ar y walia.
Ma na rwdan yn y simdda.
O ma pawb yn mynd o'u coua
yn slo slo bach.
Wyt ti'n dallt y geiria neu ydi dy fren
di wedi mynd yn nym?
Fyddi di'n meddwl weithiau dy fod di'n
rhy hen i gnoi gym?
Ma na fflama'n tanio'n fama.
Ag aisin siwgr ar y topia.
O ma pawb yn mynd o'u coua
yn slo slo bach.
Wyt ti'n dallt y geiria ne ydi dy fren
di wedi mynd yn nym?
Fyddi di'n meddwl weithiau dy fod di'n
rhy hen i gnoi gym?
Na dwi ddim yn difaru peidio dy garu di o o
a dwi'n falch na nesh i gydymdeimlo,
Na neshi gydymuffurio efo'r
dre-e-wd-o-o-d A-A-A-A-A

There's crap on the walls. There's a swede in the
chimney.
Oh everyone's going out of their minds
very, very slowly
Do you understand the words or has your brain
gone numb?
Do you sometimes think that you're
too old to chew gum?
There are flames igniting here.
And sugar icing on the tops.
Oh everyone's going out of their minds
very, very slowly.
Do you understand the words or has your brain
gone numb?
Do you sometimes think that you're
too old to chew gum?
No, I don't regret not loving you oh
and I'm glad that I didn't sympathize,
Or that I didn't conform with the
sti-i-i-nk. A-A-A-A-A.

17. Y Hi - Her

Meinir Gwilym

Mae be ydach chi'n wneud rwan yn iawn,
medda hi
ond neith hi ddim dweud y geiriau --
paid a gofyn pam.
Ti ddim isho deall ei phen hi, wir.

Neith hi ddim ond dwyn y ser o dy lygaid di,
a dwyn y weddi o dy enaid di
achos dyna be mae hi'n ei wneud,
